



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig o'r enw Adnewyddu Rhaglen Ddileu
TB Buchol Cymru.**

Cyflwynwyd ein Rhaglen Ddileu TB buchol yng Nghymru yn 2008 gyda'r weledigaeth Gymru o ddod yn rhanbarth â Statws heb TB swyddogol.

Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud ers 2008, ac rydym yn parhau i gyflwyno newidiadau i'r Rhaglen, sy'n adeiladu ar fesurau sydd eisoes ar waith ac yn eu cryfhau. Yn 2017, cyflwynwyd dull rhanbarthol o Ddileu TB, gan greu Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel. Roedd y rhanbarthau hyn yn sail i ddull gweithredu gwell gyda mesurau amrywiol yn cael eu rhoi ar waith drwy Gynllun Cyflawni.

Rydym yn deall yr effeithiau dinistriol y gall achosion o TB eu cael ar ffermwyr a'u teuluoedd gyda goblygiadau pellgyrhaeddol y gall hyn eu cael ar draws y diwydiant ffermio. Mae'r ystadegau TB hirdymor yn dangos y camau cadarnhaol rydym wedi'u cymryd i fynd i'r afael â TB buchol yng Nghymru, fodd bynnag rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i gryfhau ein ffordd o weithio ymhellach a gwella cydweithredu. Mae'n amlwg mai dim ond drwy gydweithio y gallwn fynd i'r afael â'r clefyd hwn.

Roedd yr ymgynghoriad diweddar yn cynnig y gallu i bob unigolyn a sefydliad â diddordeb ddarparu mewnbwn adeiladol i Raglen Ddiwygiedig ar gyfer Dileu TB a helpu i lunio ein polisiau wrth symud ymlaen. Ym mis Mai, cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Croesawaf adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Adnewyddu Rhaglen Ddileu TB Buchol Cymru. Rwy'n arbennig o falch o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd yn fras â'n cynigion, a byddant yn cael eu hystyried, ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth arall, wrth ddatblygu Rhaglen Ddiwygiedig ar gyfer Dileu TB. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad:

Ymgysylltu â ffermwyr a'r diwydiant ehangach

- **Argymhelliad 1**

Dylai Llywodraeth Cymru ddilyn y llwybr cyd-gynhyrchu wrth ddatblygu polisi'n ymwneud â dileu TB buchol.

- **Argymhelliad 2**

Rhaid i Lywodraeth Cymru drin ffermwyr a'r diwydiant ehangach fel partneriaid cyfartal wrth ddatblygu polisi a sicrhau bod ffermwyr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso gan y cynllun dileu diwygiedig ac yn gyfrifol am ei lwyddiant.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion 1 a 2:

Derbyn

Rwy'n cefnogi'r egwyddor o gyd gynhyrchu a chynnwys ffermwyr a diwydiant wrth ddatblygu a chyflawni ein polisi dileu TB.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu â Ffermwyr wedi cyflwyno ei adroddiad terfynol yn ddiweddar ac mae pwysigrwydd sicrhau dull partneriaeth unedig a chyfartal o ddileu TB yn cael ei adlewyrchu drwyddi draw. Byddaf yn myfyrio ar yr argymhellion craidd y mae'r grŵp wedi'u gwneud a'u hystyried fel rhan o'r dull newydd o ymdrin ar gyfer y broses o ddileu TB. Bydd argymhellion y Grŵp yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe'r Llywodraeth maes o law.

Roedd trefniadau llywodraethu'r Rhaglen Ddileu TB, gan gynnwys rôl rhanddeiliaid, ymhlith pethau eraill, yn destun ymgynghoriad rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror. Mae crynodeb o'r ymatebion i'w weld yma: <https://llyw.cymru/rhaglen-or-newydd-ar-gyfer-dileu-tb>

Byddaf yn ystyried argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu â Ffermwyr a'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth bwysu a mesur y camau nesaf.

Byddaf yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ar y Rhaglen Ddileu TB yn ddiweddarach y mis hwn.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

- **Argymhelliad 3.**

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraethau Seland Newydd ac Iwerddon er mwyn dysgu gwersi o'u llwyddiannau o ran ymgysylltu â ffermwyr a'r diwydiant ehangach.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 3:

Derbyn

Rydym eisoes wedi ymgysylltu â Llywodraethau Seland Newydd, Iwerddon ac eraill ar eu Rhaglenni Dileu TB a'u dulliau ymgysylltu. Mae'r sgysiau hyn yn agored ac yn barhaus. Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau yn hyfyw yng Nghymru, gan ysturied anghenion y diwydiant amaethyddol a'i berthynas a'r llywodraeth.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu â Ffermwyr wedi bod yn ystyried y gwaith ymgysylltu â'r diwydiant ac wedi darparu argymhellion. Byddaf yn ystyried yr argymhellion hyn i lywio Cynllun Cyflawni ar gyfer Dileu TB adnewyddu.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

- **Argymhelliad 4.**

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â DEFRA fel y gall ddysgu gwersi o'r Gwasanaeth Cynghori ar TB yn Lloegr ac atgynhyrchu ei lwyddiant.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 4:

Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau parhaus gyda DEFRA ar bolisi TB. Rydym wedi cymryd diddordeb brwd yn y ffordd y mae'r Gwasanaeth Cynghori ar TB wedi'i ddatblygu ac wedi ceisio dysgu gwersi o feysydd llwyddiant.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r cymorth y mae'n ei roi i ffermwyr y mae TB yn effeithio arnynt. Ystyriodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen diweddar ar Ymgysylltu â Ffermwyr ymyriad milfeddygol a Chymorth TB ymhlith pethau eraill. Mae gweithdy'n cael ei ddatblygu i'w gynnal yn Sioe Frenhinol Cymru a fydd yn ystyried yn benodol rôl milfeddygon a thimau dan arweiniad milfeddygon. Bydd gwersi gan y Gwasanaeth Cynghori ar TB yn rhan o hyn.

At hynny, bydd adolygiad o raglen Cymorth TB yn cynnwys trafodaethau sylweddol gyda DEFRA, y Gwasanaeth Cynghori ar TB a Phartneriaid Cyflenwi Milfeddygol Cymru i ystyried y gwersi a ddysgwyd a sut y gellid addasu'r rhain ar gyfer Cymru.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Prynu Gwybodus

- **Argymhelliad 5.**

Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno prynu gwybodus ar sail gorfodol, rhaid i'r system fod yn seiliedig ar ddata cywir o ansawdd uchel y mae angen eu darparu'n gyflym mewn system sy'n gweithio.

- **Argymhelliad 6.**

Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno prynu gwybodus, dylai weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno systemau cydnaws yng Nghymru a Lloegr ar yr un pryd oherwydd bod anifeiliaid yn cael eu symud ar draws ffiniau.

- **Argymhelliad 7.**

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod EID Cymru yn gywir, y gall gadw gwybodaeth am yr holl glefydau perthnasol a'i fod yn gydnaws â systemau a ddefnyddir ledled y DU.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion 5, 6 a 7:

Derbyn mewn egwyddor

Cynhwyswyd cynigion prynu gwybodus yn yr ymgynghoriad ar Raglen Ddiwygiedig ar gyfer Dileu TB ac rwyf wrthi'n ystyried yr ymatebion, ochr yn ochr â gwybodaeth arall, er mwyn llywio Cynllun Cyflawni diwygiedig. Os bydd y cynigion Prynu Gwybodus yn mynd rhagddynt, rwy'n cydnabod yn llawn y bydd angen gwaith i sicrhau y gall systemau data ddarparu'r wybodaeth ofynnol mewn modd amserol.

Beth bynnag fo unrhyw benderfyniad ar drefn Prynu Gwybodus, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adeiladu'r strwythur i alluogi arddangos data TB (a Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD)) o lansiad system adnabod a symud newydd EIDCymru. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw/na fydd EIDCymru yn cadw data clefydau, ond mae'n tynnu data o ffynonellau eraill er mwyn ei arddangos.

Goblygiadau Ariannol: Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Mae'r Is-adran Amaethyddiaeth a Datblygu Cynaliadwy wedi ymrwymo i ariannu'r gwaith o adeiladu'r strwythur i arddangos data TB a BVD o lansiad'r system adnabod a symud os yw'r data ar gael.

Profi

- **Argymhelliad 8.**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad effaith economaidd-gymdeithasol manwl o unrhyw newidiadau i'r drefn profi TB. Dylai canlyniadau'r asesiad hwn gael eu rhannu gyda'r Pwyllgor.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 8:

Derbyn

Roedd gwahanol agweddau ar y drefn profi TB yn destun ymgynghoriad. Bydd newidiadau i'n dull o gynnal profion TB yng Nghymru yn cael eu hasesu'n llawn.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

- **Argymhelliad 9.**

Wrth gynnal ei hasesiadau effaith ar brofion, dylai Llywodraeth Cymru edrych ar yr effaith hirdymor, gan gynnwys yr angen parhaus i ddigolledu ffermwyr am wartheg a gaiff eu symud i'r dyfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 9:

Derbyn mewn egwyddor

Fel y soniwyd uchod, bydd unrhyw newidiadau i'n dull o gynnal profion TB yn destun asesiad llawn, a fydd yn cynnwys dadansoddi taliadau. Cafodd cynigion ar gyfer Taliadau TB eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Prinder milfeddygon

- **Argymhelliad 10.**

Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i archwilio pa mor ymarferol fyddai cyflwyno profwyr TB llewg gyda'r diwydiannau ffermio a milfeddygol.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 10:

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r heriau o ran adnoddau sy'n wynebu'r diwydiant milfeddygol. Gwnaethom gomisiynu sefydliad ymchwil allanol i gynnal adolygiad o'r opsiynau i ategu ein capasiti milfeddygol ar gyfer profion TB drwy ddefnyddio mwy o brofwyr llewg.

Pan ddaw'r adroddiad terfynol i law, ac ar ôl ei ystyried, byddwn yn rhoi prosiect peilot ar waith i brofi unrhyw ddulliau a argymhellir. Yn ogystal, byddwn yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys ein partneriaid cyflenwi milfeddygol ac APHA. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar-lein, ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

lawndal

- **Argymhelliad 11.**

Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio taliadau iawndal TB i wobrwyo arferion ffermio da.

- **Argymhelliad 12.**

Os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis cyflwyno system dablaid, rhaid iddi sicrhau nad yw ffermwyr sy'n magu gwartheg uchel eu gwerth (e.e. pedigri) yn cael eu trin yn annheg ac nad ydynt ar eu colled.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion 11 a 12:

Derbyn mewn egwyddor

Gwnaeth y cwestiynau Taliadau TB yn yr ymgynghoriad ennyn cryn ddiddordeb gan yr ymatebwyr. Roedd llawer o safbwyntiau cymysg ar y cynigion, tra bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gysylltu taliadau â gweithredu arferion atal a rheoli clefydau.

Nodaf argymhelliad y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio taliadau TB fel gwobr am arferion ffermio da, a hefyd y safbwynt pe bai prisiadau tabl yn cael eu cyflwyno, na ddylai ceidwaid gwartheg pedigri gwerth uchel fod ar eu colled.

Nod unrhyw drefn Taliadau TB yw talu swm teg a phriodol ar gyfer gwartheg sy'n cael eu lladd o dan y Rhaglen Ddileu TB, gan hefyd sicrhau ei bod yn deg i'r trethdalwr.

Goblygiadau Ariannol:

Mae'r drefn taliadau TB yn destun ystyriaeth ar hyn o bryd. Bydd unrhyw gostau canlyniadol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Bywyd Gwyllt

- **Argymhelliad 13.**

Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor gan nodi:

- A yw'r Gweinidog yn teimlo bod ganddi'r lefel gywir o ddata o ran nifer yr achosion o TB buchol mewn bywyd gwyllt er mwyn canfod pa mor eang y mae angen i'r rhaglen frechu moch daear fod;
- Barn y Gweinidog ynghylch pa mor economaidd yw brechu moch daear; ac
- Unrhyw ddadansoddiad o gost brechu moch daear (os caiff ei gynnal) neu gynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud y gwaith hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 13:

Derbyn mewn egwyddor

- A yw'r Gweinidog yn teimlo bod ganddi'r lefel gywir o ddata o ran nifer yr achosion o TB buchol mewn bywyd gwyllt er mwyn canfod pa mor eang y mae angen i'r rhaglen frechu moch daear fod;

Mae'n hysbys bod y brechlyn BCG yn lleihau difrifoldeb haint TB mewn moch daear unigol a'r graddau y mae'n cael ei drosglwyddo o fewn poblogaethau o foch daear. Fodd bynnag, nid yw'r effeithiau y mae brechu moch daear wedi'u cael ar achosion o TB buchol wedi'u meintioli eto ym Mhrydain Fawr.

Mae APHA yn cynllunio astudiaeth rheoli achosion lefel fuches ôl-weithredol ar hyn o bryd i werthuso'r effeithiau y mae brechu moch daear wedi eu cael ar achosion o dwbercwlosis buchol yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr astudiaeth yn gwerthuso'r effeithiau y cafodd brechiadau moch daear rhwng 2010 i 2016 ar achosion o TB buchol hyd at 2017. Bydd y data a ddefnyddir yn yr astudiaeth yn cynnwys y rheini a gasglwyd yn ystod y prosiect brechu moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys (ATD).

Oni ddeallir yr effaith y mae brechu moch daear yn ei chael ar achosion o dwbercolosis buchol mae'n anodd modelu pa mor eang y mae angen i raglen brechu moch daear yng Nghymru fod. Rwy'n edrych ymlaen at ddarllen canlyniad yr astudiaeth yn ofalus a byddaf yn sicr yn gweithio gyda fy swyddogion a Thîm Epidemioleg TB Cymru i ddefnyddio'r wybodaeth honno.

Yn ogystal â hynny, yng Nghymru, rydym wedi comisiynu'r gwaith o gasglu moch daear a ganfuwyd yn farw ers 2014. Defnyddir canlyniadau'r arolwg o foch daear a ganfuwyd yn farw i ymchwilio i'r berthynas rhwng haint TB buchol mewn moch daear a gwartheg. Mae'r arolwg wedi cynyddu ein dealltwriaeth o lefelau'r haint *Mycobacterium bovis* (*M. bovis*) a geir mewn moch daear.

Gan ddefnyddio data o 2014–2016 (Schroeder et al 2020), dangosodd archwiliad o batrymau helaethrwydd amserol a gofodol fod yr *M. bovis* a ynyswyd o foch daear yn tueddu i fod yn debyg i genoteipiau gwartheg yn yr un ardal, ac eithrio yn yr Ardal TB Isel. Nid oedd yn bosibl pennu i ba gyfeiriad y digwyddodd unrhyw drosglwyddiad traws-rywogaethol – na'r ysgogwyr ar gyfer hynny – o'r astudiaeth hon.

Mae'r amrywiadau gofodol a ddisgrifir yn yr astudiaeth yn cefnogi'r ffaith bod angen y mesurau goruchwyllo a rheoli, a gyflwynwyd yn 2017, a addaswyd ar lefel ranbarthol.

Yn fy marn i mae'r oruchwyliaeth oddefol hon yn cyfoethogi'r gwaith adrodd epidemiolegol ac mae'n cael ei defnyddio wrth reoli dadansoddiadau TB uwch, ac mae'n ein helpu i ddatblygu polisiau ar lefel leol a lefel genedlaethol.

- Barn y Gweinidog ynghylch pa mor economaidd yw brechu moch daear;

Mae gweithrediadau brechu moch daear yn llafur-ddwys, a chostau'r llafur sy'n gyfrifol am y mwyafrif o gyfanswm y gwariant. Fel rheol, gall gymryd hyd at 3 wythnos i ddau weithredwr profiadol gyflawni un rownd o waith, sef cynnal yr arolwg cychwynol er mwyn pennu lefel gweithgarwch moch daear a'u lleoliad, i'r gam olaf o osod y maglau er mwyn dal moch daear a'u brechu.

Ac eithrio'r Ardal Triniaeth Ddwys, ar raddfa gymharol fach y cafodd y gweithrediadau brechu moch daear dilynol eu cyflawni. Fodd bynnag, mae prosiectau brechu a gyflawnir yn breifat yn gwneud arbedion o ran costau llafur, llety a cherbydau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod nifer o'r rheini sy'n cadw gwartheg yn awyddus i ddefnyddio brechiadau moch daear fel mesur amddiffynnol rhag TB ar eu daliadau eu hunain. Yn 2013, gwnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau bod grant ar gael o hyd at 50% o'r costau cymwys o frechu moch daear fel bod modd rhannu'r costau o frechu moch daear yn y dyfodol. Ers hynny, mae cyfnodau ymgeisio ar gyfer grantiau wedi parhau, gan alluogi ffermwyr, tiffeddianwyr a sefydliadau eraill yng Nghymru i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r gronfa o TB buchol sy'n bodoli ymhlith moch daear. Mae brechu'n lleihau lefel TB buchol mewn poblogaeth o foch daear ac yn lleihau'r posibilrwydd o ledaenu'r haint i wartheg. Mae'r cynllun grant brechu hefyd yn ei gwneud yn bosibl brechu mwy o foch daear dros ardal fwy o faint nag y gallai'r Llywodraeth ei gyflawni ar ei ben ei hun.

Mae sefydliadau cadwraeth bywyd gwyllt wedi dangos y gellir gwneud arbedion sylweddol pan ddefnyddir llafur gwirfoddolwyr.

- Unrhyw ddadansoddiad o gost brechu moch daear (os caiff ei gynnal) neu gynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud y gwaith hwn.

Fel y nodwyd uchod, mae'n anodd dadansoddi costau unrhyw fudd canfyddedig a geir heb ddeall yr effaith y mae brechu moch daear yn ei chael ar achosion o TB buchol. Fodd bynnag, drwy gefnogi gweithrediadau brechu moch daear, rydym yn rhoi'r cyfle i dirfeddianwyr rhagweithiol roi mesurau ychwanegol ar waith er mwyn amddiffyn eu buchesau.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

- **Argymhelliad 14.**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i gynnal astudiaeth er mwyn gwella gwybodaeth ynghylch sut y caiff TB buchol ei drosglwyddo rhwng gwartheg a bywyd gwyllt, rhwng bywyd gwyllt a gwartheg ac o fewn y boblogaeth bywyd gwyllt.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 14:

Derbyn mewn egwyddor

Mae canlyniadau nifer o astudiaethau a oedd yn archwilio'r gyfradd drosglwyddo gymharol rhwng rhywogaethau ac o fewn rhywogaethau wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar.

Hyd yn hyn, mae'r dystiolaeth gryfaf yn cael ei darparu ar hyn o bryd drwy waith modelu canlyniadau Dilyniannu Genomau Cyfan (WGS). Mae'r astudiaethau'n darparu canlyniadau tebyg ond yn amrywio rhwng p'un a yw trosglwyddo gwartheg i foch daear neu foch daear i wartheg yn uwch, a gall hyn ddibynnu ar amgylchiadau lleol. Mae'r holl astudiaethau hyn, hyd yma, wedi cydnabod bod trosglwyddo o fewn rhywogaethau yn sylweddol uwch.

Bydd prosiect piblinell Rhydychen Viewbovine yn cael ei ryddhau ar system APHA. Mae hyn yn galluogi defnyddwyr i nodi lleoliad samplau gwartheg sydd â thebygrwydd genetig agos i'w nodi ac yn sefydlu lleoliadau'r anifail y deilliodd y sampl ohono.

Mae datblygu coed ffylogenedd ar gyfer cytrasau, sy'n gallu cynnwys samplau bywyd gwyllt (samplau RTA moch daear/ceirw) – a dadansoddi'r coed hyn yn gallu sefydlu rhywfaint o wybodaeth drosglwyddo **ond nid yr holl** wybodaeth, gan ddibynnu lle ar y goeden y mae'r sampl wedi'i leoli – dim ond colli data genetig y gellir ei wneud, nid ei ennill. Po fwyaf o samplau a ychwanegir at y coed hyn, y mwyaf o ddealltwriaeth y gellir ei meithrin. Mae datblygiad ViewBovis yn darparu rhyngwyneb defnyddiwr gwell i gael mynediad at systemau piblinellau awtomataidd. Mae pwysigrwydd cynnwys data nad yw'n wartheg hefyd wedi'i nodi i ddatblygwyr.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid, yn enwedig DEFRA ac APHA, ac wrth i dechnoleg WGS ddatblygu, ac wrth i ganlyniadau awtomatig sy'n ymwneud â Pholymorffedd Niwcleotid Sengl a choed ffylogenedd ddod yn fwy cyffredin, disgwylir y bydd y maes hwn yn ychwanegu'n sylweddol at ein dealltwriaeth epidemiologol o drosglwyddo clefydau yn lleol.

Erbyn hyn, nid yw'n ymwneud cymaint â deall y mecanweithiau trosglwyddo yn fanylach, oherwydd y gwyddom eu bod yn digwydd, ond mae'n ymwneud yn fwy â deall pa mor aml y maent yn digwydd a pham mewn sefyllfaoedd lleol gwahanol.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.